| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 26 Chwefror 2015 |
| **TEITL** | Fformiwla Dyrannu<br>Cyllid Rhwydwaith Ysgolion |
| **PWRPAS** | Adrodd nôl ar yr ymgynghoriad |
| **ARGYMHELLIAD** | Cytuno ar y Fformiwla Dyrannu |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |
| **AELOD CABINET DROS ADNODDAU** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |

**Cefndir**
Ymhellach i gyflwyniad yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid i'r Fforwm 3 Tachwedd 2014, cyflwynwyd y llythyr a taenlen atodedig i'r ysgolion yn dangos amcangyfrif cost y gwasanaeth Rhwydwaith am 2015/16 a'r fformiwla oedd yn cael ei gynnig –

| | |
|---|---|
| Gwir gost llogi 'circuits' | £275mil |
| Isadeiledd ar sail nifer disgyblion | £186mil |
| Cefnogi gwasanaeth diwifr ar sail nifer disgyblion | £116mil |
| Cyfanswm cost 2015/16 | **£577mil** |
| **Dyraniad pro-rata i'r cyfanswm cost (53.66% o'r gost)** | **£307mil** |

Yn syml mae'r dyraniad yn gyfrannol i'r gost fesul ysgol.

Anfonwyd yr ymgynghoriad at 97 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig, cyfanswm o 113 ysgol.

Derbyniwyd 3 ymateb i'r ymgynghoriad -

- 1 ysgol yn cadarnhau cefnogaeth i'r dull/fformiwla dyrannu

- 1 ysgol yn teimlo bod rhannu rhywfaint o’r costau ar sail niferoedd yn deg, ond bod elfen o anhegwch yn ymddangos i rai ysgolion gydag cost llogi “circuits” uwch na’r cyfartaledd o bosib oherwydd lleoliad. Pryder bod cynsail yma i godi mwy am wasanaethau ym mhellafoedd gwledig y sir yn hytrach na rhannu’r cyfanswm cost rhwng holl ysgolion. Cynnig bod yr elfen “circuits” yn cael ei rannu’n gyfartaledd rhwng yr ysgolion yn hytrach nac ar sail gwir gost fesul safle.

- Nid oedd sylw y trydydd ysgol ar sail y fformiwla, ond yn hytrach ar ddiffygion y gwasanaeth. Mae’r sylwadau wedi’u cyfeirio i’r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid iddo ymateb yn uniongyrchol i’r ysgol.

**Argymhelliad**
Mabwysiadu’r sail dyrannu sydd wedi’i gynnig.